# Comisiynydd Plant Cymru

# Datgeliadau Camarfer

# Adroddiad Blynyddol 2019 – 2020

Cwblhawyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion cyfreithiol "Rheoliadau Personau Rhagnodedig (Adroddiadau ar Ddatgelu Gwybodaeth) 2017".

Mae'r rheoliadau hyn yn cyflwyno'r gofynion adrodd ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n Bersonau Rhagnodedig ar gyfer Datgelu Camarfer. Personau rhagnodedig yw pobl a chyrff y gallwch chi ddatgelu camarfer iddyn nhw yn hytrach na'ch cyflogwr.

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn berson rhagnodedig ar gyfer Datgelu Camarfer mewn perthynas â buddiannau plant, ac mae modd cysylltu â'r Comisiynydd ynghylch materion sy'n ymwneud â hawliau, lles a phethau sy'n effeithio ar blant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdanyn nhw, yng Nghymru.

Mae'r adroddiad canlynol yn darparu gwybodaeth ynghylch Datgelu Camarfer fel yr amlinellwyd gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn "Datgelu Camarfer – Canllawiau i Bersonau Rhagnodedig 2017".

## 1. Ystadegau

| | |
|---|---|
| Nifer y datgeliadau gwybodaeth cymwys a wnaed gan weithwyr yn ystod y cyfnod o 12 mis rhwng 1.4.18 a 31.3.19 | 0 |
| Nifer y datgeliadau cymwys lle penderfynodd Comisiynydd Plant Cymru gymryd camau pellach | 0 |

## 2. Crynodeb o'r math o gamau a gymerwyd gan y person rhagnodedig yng nghyswllt person cymwys yng nghyswllt datgeliadau gwybodaeth cymwys.

Amherthnasol

## 3. Crynodeb o sut mae'r wybodaeth a ddatgelwyd wedi effeithio ar allu Comisiynydd Plant Cymru i gyflawni ei swyddogaethau a chyflawni amcanion.

Amherthnasol

## 4. Esboniad ar swyddogaethau, amcanion a phwerau statudol Comisiynydd Plant Cymru

Mae Comisiynydd Plant Cymru (y "**Comisiynydd**") yn swyddfa a sefydlwyd yn unol â Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, a newidiodd Ddeddf Safonau Gofal 2000 ("**Deddf 2000**"). Mae pwerau a swyddogaethau'r Comisiynydd yn deillio o Ddeddf 2000.

Rhoddwyd pwerau pellach i'r Comisiynydd yn unol â Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 ("**Rheoliadau 2001**"). Yn eu hanfod, mae'r rheoliadau hyn yn ymhelaethu ar y pwerau a'r swyddogaethau a roddwyd i'r Comisiynydd o dan Ddeddf 2000.

Prif nod y Comisiynydd yw diogelu a hybu hawliau a lles **plant**.

Mae modd dosbarthu prif bwerau statudol y Comisiynydd o dan ddau bennawd:

- Pwerau i adolygu gweithgareddau rhai cyrff cyhoeddus; a
- Phwerau i gynorthwyo **plant** unigol.

<u>Pwerau i Adolygu</u>

Mae gan y Comisiynydd bŵer i wneud y canlynol:

- adolygu swyddogaethau cyrff cyhoeddus amrywiol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, neu sut mae'r swyddogaethau hynny'n cael eu hymarfer; ac
- adolygu a monitro'r trefniadau sydd ar waith gan rai cyrff cyhoeddus i ddiogelu a hybu hawliau **plant** yng nghyswllt:
    - delio â chwynion neu gynrychiolaethau;
    - sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd mewn ymateb i **ddatgelu camarfer**;
    - cynrychioli barn a dymuniadau **plant**;
    - darparu **cyngor a chefnogaeth** i **blant**.

<u>Pwerau i Gynorthwyo</u>

Mewn perthynas â **phlant** unigol, mae gan y Comisiynydd bŵer i:

- archwilio achosion unigol o dan rai amgylchiadau; a
- darparu cymorth i **blentyn**:
    - wneud cwyn neu gynrychiolaeth mewn perthynas â'r gwasanaethau mae'r **plentyn** yn eu derbyn; neu
    - mewn rhai **trafodion** (mae cyfyngiadau o ran **achosion cyfreithiol**).